



Department for
Digital, Culture,
Media & Sport

Ymgynghoriad ar ddad-grimineiddio achosion
o osgoi talu'r drwydded deledu

5 Chwefror 2020

Cynnwys

Ymgynghoriad ar ddad-grimaleiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu	1
Crynodeb	3
Y drwydded deledu a'r sancsiwn troseddol	5
Y drwydded deledu	5
Y cynllun gorfodi a'r sancsiwn troseddol presennol	5
Adolygiad Perry	7
Yr achos dros ddad-grimaleiddio	9
Tegwch a chymesuredd	9
Newidiadau i nifer a math y bobl y mae gofyn iddynt brynu trwydded deledu	11
Yr effaith ar y system gyfiawnder	11
Gwybodaeth am gynlluniau gorfodi amgen	12
Cynllun gorfodi sifil	12
Effeithiau cynllun gorfodi sifil	13
Cyfraddau osgoi	13
Costau sefydlu a gweinyddu	14
Newidiadau i sut y penderfynir ar sancsiynau	14
Yr effaith ar unigolion	15
Cwestiynau'r ymgynghoriad	16
Ymateb i'r ymgynghoriad hwn a beth fydd yn digwydd	17
Sut i ymateb	17
Datgelu ymatebion a diogelu data	17
Y camau nesaf	18

Crynodeb

1. O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, mae'n ofynnol cael trwydded deledu er mwyn gosod neu ddefnyddio derbynnydd teledu. Mae'n ofynnol i bawb yn y DU, a'r tiriogaethau dibynnol ar y Goron, sy'n gwyllo neu'n recordio'r teledu oddi wrth unrhyw ddarparwr wrth iddo gael ei ddarledu, a/neu sy'n gwyllo cynnwys ar BBC iPlayer, p'un a yw hynny ar setiau teledu, cyfrifiaduron neu ddyfeisiau eraill, gael y drwydded briodol. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i fodel y drwydded deledu a'r amgylchiadau pan fydd trwydded deledu'n ofynnol am weddill cyfnod y Siarter Frenhinol (y Siarter) bresennol, a fydd yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2027.¹
2. Ar hyn o bryd, mae rhywun sy'n gosod, yn defnyddio derbynnydd teledu neu'n gwyllo cynnwys ar BBC iPlayer heb drwydded deledu yn euog o drosedd. Gelwir hyn yn achos o osgoi talu'r drwydded deledu. Nid yw osgoi talu'r drwydded deledu ynddo'i hun yn drosedd carcharol, ac ni fydd y rhan fwyaf o achosion yn arwain at gofnod troseddol. Fodd bynnag, gallai peidio â thalu'r ddirwy a osodir, yn dilyn euogfarn droseddol, arwain at risg o gyfnod yn y carchar.
3. Mae'r BBC, sy'n gweithredu o dan ei nod masnach, Trwyddedu Teledu ('TV Licensing'), yn gyfrifol am gasglu'r drwydded deledu a'i gorfodi. Mae'n defnyddio ystod o ddulliau i annog pobl i brynu un lle bo hynny'n ofynnol; mae'n dweud fod carcharu yn opsiwn 'dewis olaf' i'r llys lle mae'r holl ddulliau gorfodi eraill wedi bod yn aflwyddiannus.² Hyd yn oed wedyn, dim ond ar ôl ymchwiliad ffurfiol i allu troseddwr i dalu dirwy y bydd y troseddwr hwnnw, sydd wedi peidio â thalu'r ddirwy, yn mynd i'r carchar.
4. Ystyriwyd y ffordd y mae'r gofyniad i gael trwydded deledu yn cael ei orfodi yn fwyaf diweddar yn '*TV Licence Fee Enforcement Review*' yn 2015, o dan arweiniad David Perry CF (QC) (Adolygiad Perry). Ystyriodd Adolygiad Perry, a oedd yn ofynnol o dan adran 77 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015, a ddylid dad-grimaleiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu a rhoi cynllun gorfodi amgen nad yw'n droseddol yn ei le. Nododd Adolygiad Perry fod hwn yn benderfyniad sy'n newid pwyslais a daeth i'r casgliad, ynghyd ag argymhellion eraill, y dylid cadw'r math presennol o drefniadau atal ac erlyn troseddol o dan fodel y drwydded deledu ar y pryd.³
5. Wedi hynny, cadarnhawyd y model casglu a gorfodi presennol ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth '*A BBC for the future: a broadcaster of distinction*' (y Papur Gwyn) yn 2016.⁴ Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn iawn edrych eto a yw'r sancsiwn troseddol yn parhau i fod yn briodol mewn achosion o osgoi talu ffi'r drwydded deledu o ystyried pryderon parhaus bod y sancsiwn troseddol yn annheg

¹ Y Siarter Frenhinol yw sail gyfansoddiadol y BBC. Mae'n nodi Amcan, Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC. Mae'r Siarter hefyd yn amlinellu trefniadau llywodraethu a rheoliadol y BBC, gan gynnwys rôl a chyfansoddiad Bwrdd y BBC.

² '[TV Licence Enforcement Review: Submission from the BBC in response to consultation](#)', Ebrill 2015, paragraff 3.2.

³ '[TV Licence Fee Enforcement Review](#)', tudalen 8.

⁴ '[A BBC for the future: a broadcaster of distinction](#)', Mai 2016.

ac yn anghymesur.

6. Mae hi'n bum mlynedd ers Adolygiad Perry, ac mae'r dirwedd ddarlledu wedi newid. Er enghraifft, nid oedd yn ofynnol cael trwydded deledu i wyllo na lawrlwytho cynnwys ar BBC iPlayer yn 2015. Ymhellach, yn dilyn penderfyniad y BBC ar ddyfodol consesiwn ffi'r drwydded i bobl dros 75 oed o fis Mehefin 2020, bydd rhai pobl sy'n agored i niwed yn y DU yn wynebu gweithdrefnau gorfodaeth Trwyddedu Teledu'n fuan; rhai am y tro cyntaf ers 1999. Mae'r Llywodraeth wedi nodi'n glir ei bod yn siomedig gyda phenderfyniad y BBC i ond rhoi consesiwn ffi'r drwydded i bobl dros 75 oed sy'n cael Credyd Pensiwn. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod gwerth trwyddedau teledu rhad ac am ddim i bobl dros 75 oed ac yn credu y dylent gael eu hariannu gan y BBC.
7. Felly mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ynghylch a ddylai'r Llywodraeth fwrw ymlaen â dad-grimnaleiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu drwy ddisodli'r sancsiwn troseddol â chynllun gorfodi sifil amgen.
8. Wrth benderfynu a ddylid dad-grimnaleiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu, ac ystyried sut y gallai hyn ddigwydd, bydd amcanion a ffactorau penderfynu'r Llywodraeth yn cynnwys ystyriaeth o'r canlynol:
 - a. a yw cynllun gorfodi amgen, nad yw'n droseddol, yn decach ac yn fwy cymesur;
 - b. y gost a'r anhawster i weithredu unrhyw gynllun amgen;
 - c. yr effaith bosibl ar dalwyr ffi'r drwydded, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed a'r rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig; ac
 - d. effaith gyffredinol casglu ffi'r drwydded.
9. **Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn ystyried unrhyw newidiadau eraill i'r drwydded deledu. Gellir diystyru gwybodaeth a roddir yn y meysydd hyn.**
10. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl y byddai unrhyw newidiadau i orfodi talu'r drwydded deledu yn dod i rym yng nghyfnod setlo ffi'r drwydded nesaf. Disgwylir i hyn ddechrau ym mis Ebrill 2022 a phara o leiaf am gyfnod o bum mlynedd. Felly bydd y Llywodraeth yn gweithio'n agos gyda'r BBC a Thrwyddedu Teledu i sicrhau y bydd unrhyw newidiadau yn cael eu cyflawni mewn modd hawdd eu trin ac effeithlon. Bydd y Llywodraeth yn ystyried dyfodol model y drwydded deledu cyn y Siarter nesaf.
11. Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor am gyfnod o wyth (8) wythnos. Yna bydd y Llywodraeth yn ystyried yr ymatebion yn ofalus ac yn disgwyl cyhoeddi ymateb erbyn haf 2020. Yn dibynnu ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad hwn, efallai y bydd angen i'r Llywodraeth ymgynghori ymhellach ar fanylion unrhyw newidiadau posibl i'r model gorfodi presennol cyn gwneud penderfyniad terfynol.
12. Y dyddiad a'r amser cau ar gyfer ymatebion yw 5pm ar 1 Ebrill 2020.

Y drwydded deledu a'r sancsiwn troseddol

13. Mae'r adran hon o'r ymgynghoriad yn rhoi gwybodaeth am gefndir y drwydded deledu. Mae hefyd yn esbonio'r sancsiwn troseddol presennol, y weithdrefn orfodi bresennol ac yn rhoi rhagor o wybodaeth am sut mae'r system yn gweithio.

Y drwydded deledu

14. Mae'n ofynnol i bawb yn y DU, a'r tiriogaethau dibynnol ar y Goron, sy'n gwyllo neu'n recordio'r teledu oddi wrth unrhyw ddarparwr wrth iddo gael ei ddarlledu, a/neu sy'n gwyllo cynnwys ar BBC iPlayer, p'un a yw hynny ar setiau teledu, cyfrifiaduron neu ddyfeisiau eraill, gael trwydded deledu. Rhoddir arian a gesglir o dalu ffi'r drwydded i'r BBC yn bennaf er mwyn ariannu gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein y BBC yn y DU, yn ogystal â'r 'World Service'. Fodd bynnag, er bod cyfran sylweddol o ffi'r drwydded yn mynd i'r BBC, defnyddir refeniw ffi'r drwydded hefyd i gefnogi amcanion gwasanaeth cyhoeddus strategol eraill, gan gynnwys teledu lleol ac S4C.
15. Mae'r gofyniad am drwydded deledu a pha weithgareddau y mae'n ei chwmpasu wedi'u nodi mewn deddfwriaeth.⁵ Fel rheol, adolygir model y drwydded deledu yn ystod y broses o'r enw Adolygiad Siarter y BBC, lle mae'r Llywodraeth yn cytuno beth ddylai cenhadaeth y BBC fod am gyfnod o ddeng mlynedd neu un mlynedd ar ddeg. Gwnaeth yr Adolygiad Siarter diwethaf yn 2015/16 ystyried model ffi'r drwydded, gorfodi'r model hwn a gosod y trefniadau presennol tan ddiwedd 2027.
16. Ar hyn o bryd mae'r drwydded deledu yn cael ei gweinyddu a'i gorfodi gan y BBC o dan ei nod masnach, Trwyddedu Teledu, sy'n gweithio gyda phartneriaid eraill i gasglu a gorfodi'r gofyniad. O dan y Siarter, cyfrifoldeb Bwrdd y BBC yw sicrhau bod trefniadau casglu ffi'r drwydded yn '*efficient, appropriate and proportionate*'.⁶
17. Rheolir lefel ffi'r drwydded gan y Llywodraeth drwy ddeddfwriaeth. Yn 2015, cytunodd y Llywodraeth a'r BBC ar setliad ariannu ffi'r drwydded pum mlynedd a ddechreuodd yn 2017. Mae'r setliad yn caniatáu i ffi'r drwydded gynyddu bob blwyddyn o 2017 yn unol â chwyddiant CPI: yn 2019/20, cost trwydded teledu lliw yw £154.50 a chost trwydded teledu du a gwyn yw £52.00.
18. Roedd 25.9 miliwn o drwyddedau ledled y DU yn 2018/19, gan gynnwys y rhai a gyhoeddwyd o dan gynllun consesiwn.⁷ Yr incwm a gynhyrchwyd o ffi'r drwydded yn 2018/19 oedd £3.69 biliwn.⁸

Y cynllun gorfodi a'r sancsiwn troseddol presennol

19. O dan delerau Deddf Cyfathrebiadau 2003, mae'n drosedd gosod neu ddefnyddio derbynnnydd teledu heb feddu ar drwydded deledu.⁹ Mae gan y drosedd gosb uchaf o

⁵ Adrannau 363 i 365A o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a Rheoliadau Cyfathrebu (Trwyddedu Teledu) 2004.

⁶ '[The BBC Charter](#)', Erthygl 20(7)(b).

⁷ '[BBC Television Licence Fee Trust Statement for the year ending 31 March 2019](#)', tudalen 6.

⁸ '[BBC Group Annual Report and Accounts 2018/19](#)', tudalen 202.

ddirwy, nad yw, yn y rhan fwyaf o achosion, yn mynd ar gofnod troseddol unigolyn. O ystyried hyn, nid anfonir neb i'r carchar am beidio â chael trwydded deledu. Fodd bynnag, os bydd rhywun yn gwrthod talu'r ddirwy yn fwriadol er gwaethaf rhybuddion dro ar ôl tro, gellir ei garcharu am beidio â thalu'r ddirwy honno.

20. Bydd Trwyddedu Teledu yn ceisio cysylltu â rhywun y mae'n amau y gallai fod angen trwydded deledu arno drwy lythyrau a galwadau. Yna mae'n cynnal ymchwiliad i weld a yw rhywun wedi cyflawni trosedd trwydded deledu gan ddilyn y cod ymddygiad sefydledig a chanllawiau eraill.¹⁰ Bydd swyddogion ymholi yn rhoi rhybudd i unigolyn os oes sail i amau bod trosedd wedi'i chyflawni. Gall llys roi gwarant i fynd i mewn i adeilad a'i chwilio o dan rai amgylchiadau. Mae Trwyddedu Teledu yn nodi rhagor o wybodaeth ar ei wefan am sut mae'n ymchwilio i achosion o osgoi talu'r drwydded deledu.¹¹
21. Yna, gall Trwyddedu Teledu ddwyn erlyniad am drosedd. Mae'n rhaid iddo fabwysiadu'r dull yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron wrth wneud hynny; rhaid iddo fod yn fodlon bod digon o dystiolaeth i roi disgwyliad realistig o euogfarn (a elwir yn brawf tystiolaethol). Pan fydd hyn yn cael ei fodloni, mae'n rhaid i Drwyddedu Teledu ystyried wedyn a yw'r erlyniad yn ofynnol er lles y cyhoedd (a elwir yn brawf lles y cyhoedd).
22. Os bydd y llysoedd yn canfod bod trosedd osgoi talu wedi'i chyflawni, gelwir y ddedfryd uchaf sydd ar gael yn ddirwy Lefel 3, sydd wedi'i gosod ar hyn o bryd ar uchafswm o £1000. Penderfynir ar y gosb mewn achos unigol mewn perthynas â Chanllawiau Dedfrydu Llys yr Ynadon a bydd yn ystyried modd y troseddwr ac amgylchiadau'r achos. Yn 2018, cafwyd 121,203 o bobl yn euog a'u dedfrydu am osgoi'r gofyniad i fod yn berchen ar drwydded deledu.¹² Y ddirwy ar gyfartaledd i'r troseddwr hyn oedd £176.¹³
23. Fel arfer, mae'r gwaith o orfodi dirwyon troseddol yn cael ei ddyrannu i swyddog dirwyon, a gyflogir gan Wasanaeth Llys a Thribiwnlys Ei Mawrhydi (HMCTS). Mae ganddynt y disgrisiwn i deilwra'r dull o orfodi yn ôl modd unigolyn, gan gynnwys y gallu i ganiatáu taliadau mewn rhandaliadau, a defnyddio ystod o ddulliau gorfodi fel atafael enillion neu fudd-daliadau, a symud nwyddau gan feiliaid.¹⁴ Dim ond fel y dewis olaf yr ystyrir carcharu; ac (oni bai bod y llys o'r farn bod y troseddwr yn annhebygol o aros mewn un cartref yn y DU yn ddigon hir i alluogi gorfodi drwy unrhyw ddull arall) rhaid i'r llys fod yn fodlon yn gyntaf y tu hwnt i amheuaeth resymol bod yr unigol yn methu â thalu am ei fod wedi gwrthod gwneud hynny'n fwriadol neu

⁹ Mae [Adran 363 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003](#) yn dweud: '(1) A television receiver must not be installed or used unless the installation and use of the receiver is authorised by a licence under this Part.(2) A person who installs or uses a television receiver in contravention of subsection (1) is guilty of an offence.' Mae hyn yn cynnwys defnyddio BBC iPlayer.

¹⁰ Gweler gwefan Trwyddedu Teledu, '[Visits, prosecutions and fines](#)'.

¹¹ Mae rhagor o wybodaeth am osgoi talu'r drwydded deledu a'i gorfodi i'w gweld ar [wefan Trwyddedu Teledu](#).

¹² '[Criminal Justice System statistics quarterly: December 2018](#)'

¹³ '[Criminal Justice System statistics quarterly: December 2018](#)'

¹⁴ Atodlen 5 i Ddeddf Llysoedd 2003.

am ei fod wedi bod yn esgeulus yn feius, a bod yr holl ddulliau gorfodi eraill wedi cael eu hystyried neu eu gweithredu.¹⁵

24. Ymdrinnir â phob achos o osgoi talu'r drwydded deledu a erlynir yn y Llys Ynadon. Gan fod y cwestiwn a oes gan berson drwydded deledu yn ffaith hawdd ei phenderfynu arni, ac o ystyried bod Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn glir ynghylch pryd mae trwydded deledu'n ofynnol, prin yw'r opsiynau ar gyfer dadlau yn erbyn achos yn y llys. O ganlyniad, er bod nifer uchel o achosion o'r fath yn cael eu cyflwyno i'r Llys Ynadon, anaml y cânt eu dadlau ac fe'u gwaredir yn effeithlon. Yn aml ymdrinnir â hwy drwy'r Weithdrefn Un Ynad (a hynny ar bapur, nid mewn llys agored).
25. Fel y nodwyd uchod, nid yw osgoi talu'r drwydded deledu ynddo'i hun yn drosedd y gellir carcharu rywun amdani ac ni fydd yn arwain at gofnod troseddol yn y rhan fwyaf o achosion; yr hyn a all arwain at garchar yw peidio â thalu dirwy a osodir am osgoi talu'r drwydded deledu. Yn 2018, carcharwyd pump o bobl am fethu â thalu'r ddirwy, gyda hyd ddedfryd ar gyfartaledd o 19 diwrnod; mae'n bosibl y byddai'r pum achos hyn wedi cynnwys troseddau eraill yr ymdriniwyd â hwy ar yr un pryd.¹⁶ Nid yw'n anarferol ychwaith i bobl sy'n cael dedfrydau o garchar am droseddau digysylltiedig ofyn i ddirwyon sy'n ddyledus a heb eu talu a materion eraill gael eu delio â hwy gyda'i gilydd.
26. Mae gwahaniaethau i'r broses hon lle mae erlyniadau yn cael eu dwyn o dan awdurdodaeth gyfreithiol wahanol. Er enghraifft, yn yr Alban, mae Trwyddedu Teledu yn trosglwyddo gwybodaeth i'r Procuradur Ffisgal sy'n penderfynu a ddylid erlyn ai peidio.¹⁷

Adolygiad Perry

27. Mae dad-grimnaleiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu wedi cael sylw gwleidyddol yn aml ac wedi denu cefnogaeth yn y Senedd. Yn ystod hynt y Bil Dadreoleiddio yn 2015, cefnogodd Llywodraeth y Glymblaid welliant a oedd yn gofyn am adolygiad o'r cynllun gorfodi ar gyfer osgoi talu'r drwydded deledu. Arweiniodd y ddeddfwriaeth hon at Adolygiad Perry.
28. Ystyriodd Adolygiad Perry y cynllun troseddau presennol a nododd ystod o gynlluniau gorfodi amgen ar gyfer y drwydded deledu o fewn model y drwydded deledu, gan gynnwys yr opsiwn o gadw'r drosedd heb unrhyw newidiadau.¹⁸ Gofynnodd yr Adolygiad am dystiolaeth a barn ar yr opsiynau mewn ymgynghoriad cyhoeddus ac fe gafodd ymatebion gan y BBC, Llywodraethau yn y tiriogaethau dibynnol ar y Goron ac ystod o gyrff rhanddeiliaid ymhlith eraill.

¹⁵ Adran 82 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980. [‘The TV Licence Fee Enforcement Review’](#), Gorffennaf 2015, tudalen 105, paragraffau 17-21.

¹⁶ Yng Nghymru a Lloegr am brif drosedd. Cyhoeddwyd gwybodaeth am y troseddau hyn gan [y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth](#).

¹⁷ [Adolygiad Perry](#), tudalen 101.

¹⁸ Ystyriodd [Adolygiad Perry](#) chwe opsiwn: cadw'r system gorfodi droseddol bresennol; diwygio'r system bresennol; setliad y tu allan i'r llys; cosb ariannol sefydlog; cosb ariannol sifil neu ddyled sifil.

29. Daeth yr Adolygiad i ben ym mis Gorffennaf 2015, gyda'r casgliad canlynol: *'the current system of criminal enforcement should be maintained, at least while the method of licence fee collection remains in its present form'*.¹⁹ Gwnaeth yr Adolygiad ystod o argymhellion eraill.
30. Amlygodd yr Adolygiad fanteision ac anfanteision newidiadau i'r drefn orfodi o fewn model ffi'r drwydded, gan gynnwys opsiynau i ddad-griminaireiddio achosion o osgoi talu a chyflwyno cosb sifil yn lle hynny, gan nodi y dylid archwilio pryderon a chostau sylweddol i'r BBC ac i'r trethdalwr pe bai newidiadau ehangach yn cael eu hailystyried.
31. Yna ystyriwyd model y drwydded deledu a'r ffordd y mae'n cael ei orfodi fel rhan o adolygiad Siarter y BBC yn 2015/16. Wrth wneud hynny, ystyriodd y Llywodraeth (o dan David Cameron) argymhellion Adolygiad Perry. Nododd y Llywodraeth yn y Papur Gwyn y byddai model ffi'r drwydded yn cael ei gynnal tan 2027.²⁰ Er bod y Llywodraeth, bryd hynny, wedi derbyn argymhelliad Adolygiad Perry i beidio â dad-griminaireiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu, nid oedd yn cymeradwyo'r sancsiwn troseddol.
32. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried y dystiolaeth a'r argymhellion a gyflwynwyd yn Adolygiad Perry wrth asesu a oes achos dros ddad-griminaireiddio. Am y rhesymau a nodir isod, mae'r Llywodraeth o'r farn y gallai fod achos bellach dros ystyried a ddylid dod i gasgliad gwahanol.

¹⁹ [Adolygiad Perry](#), tudalen 3.

²⁰ [Y Papur Gwyn](#), tudalen 92.

Yr achos dros ddad-grimnaleiddio

33. Mae'r adran hon o'r ddogfen ymgynghori yn edrych ar yr achos dros ddad-grimnaleiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu. Wrth benderfynu a ddylid dad-grimnaleiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu, ac ystyried sut y gallai hyn ddigwydd, bydd amcanion a ffactorau penderfynu'r Llywodraeth yn cynnwys ystyriaeth o'r canlynol:
- a. a yw cynllun gorfodi amgen, nad yw'n droseddol, yn decach ac yn fwy cymesur;
 - b. y gost a'r anhawster i weithredu unrhyw gynllun amgen;
 - c. yr effaith bosibl ar dalwyr ffi'r drwydded, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed a'r rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig; a'r
 - d. effaith gyffredinol casglu ffi'r drwydded.

Tegwch a chymesuredd

34. Mae cosbau troseddol yn rhan bwysig o'r system gyfiawnder, gan gynrychioli'r modd i gosbi'r rhai sy'n cyflawni trosedd sydd yn erbyn cyfreithiau'r Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae'n hanfodol mewn cymdeithas gyfiawn a democrataidd bod cosbau o'r fath yn briodol ac yn cael eu hystyried yn gosb deg am y drosedd a gyflawnir.
35. Mae eisoes yn bolisi'r llywodraeth i osgoi gormod o droseddau diangen, a sicrhau bod dewisiadau amgen yn cael eu hystyried lle bo hynny'n briodol, ar yr amod eu bod yn effeithiol, yn argymhellol ac yn gymesur.
36. Gwnaeth Adolygiad Perry gydnabod y mater hwn mewn perthynas ag osgoi talu'r drwydded deledu, gan gyfeirio at, *"a concern that the criminal nature of the current regime is not a proportionate response to the problem of licence fee evasion. In particular, it was suggested that the availability of a criminal prosecution, with a financial penalty on conviction, and the possibility of imprisonment in default of payment, was not comparable to the sanctions for non-payment of utility service bills, such as water, gas and electricity"*.²¹
37. Yn yr un modd, ym mis Chwefror 2015, daeth Adroddiad Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin 'Future of the BBC' i'r casgliad canlynol, *"the justification for criminal penalties for non-payment of the TV licence fee and the way TV licensing enforcement is carried out is anachronistic and out of proportion with responses to non-payment for other services"*.²²
38. Nododd Adolygiad Perry hefyd fod y sancsiwn troseddol yn cael ei ystyried yn arbennig o anghymesur i rai grwpiau cymdeithasol, gan gynnwys menywod a'r rheiny ar incwm isel. Cynhaliodd Trwyddedu Teledu adolygiad o arferion gorfodi yn dilyn casgliad Adolygiad Perry a ganfu: *'there is strong evidence demonstrating that the*

²¹ [Adolygiad Perry](#), tudalen 10.

²² Y Pedwerydd Adroddiad – ['Future of the BBC'](#), HC 315, tudalen 3.

majority of the factors contributing to this disparity are driven by circumstances which are outside TV Licensing's control".²³

39. Ni fydd yn bosibl datrys rhai o'r materion hyn y tro nesaf y bydd y Llywodraeth yn adolygu model y drwydded deledu cyn Siarter nesaf y BBC. Fodd bynnag, gall dad-grimaleiddio leihau effaith unrhyw wahaniaethu yn erbyn rhai grwpiau cymdeithasol gan gynnwys menywod, y rhai mwyaf agored i niwed a'r rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig, drwy newid canlyniadau osgoi talu. Felly mae'n briodol ystyried y ffactorau hyn yn yr ymgynghoriad hwn ac mae'r Llywodraeth yn croesawu tystiolaeth ar y pwyntiau hyn.
40. Mae'r Llywodraeth hefyd yn parhau i bryderu ynghylch sut mae'r risg o erlyniad troseddol yn cael ei phortreadu yn y ffordd y mae Trwyddedu Teledu a'i asiantau yn ymchwilio i achosion o osgoi talu'r drwydded deledu. Argymhellodd Adolygiad Perry y dylai Trwyddedu Teledu ystyried: *"changing the tone and content of its written communications with households so as to ensure that they are expressed in reasonable terms and can be easily understood"*.²⁴ Mae Trwyddedu Teledu wedi gweithredu yn dilyn yr argymhelliad hwn ac mae bellach yn sicrhau bod ei God Erlyn ar gael i aelodau'r cyhoedd.²⁵
41. Er gwaethaf hyn, mae pryderon yn parhau i gael eu codi mewn llythyrau at Aelodau Seneddol gan ddinasyddion a sefydliadau unigol, gan gynnwys elusennau, ynghylch y geiriad, y delweddau a'r fformat a ddefnyddir gan Drwyddedu Teledu yn ei gyfathrebiadau.
42. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod ac yn derbyn bod yn rhaid i orfodi gynnwys cyswllt ag unigolion a sefydliadau, ac y byddai hyn yn parhau i fod yn wir o dan gynllun gorfodi sifil amgen. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn dal i bryderu y gall dulliau gorfodi o'r fath, ynghyd â bygwth erlyniad troseddol, ymddangos yn anghymesur, yn llawdrwm ac y gallant achosi cryn straen a phryder, yn enwedig i'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.
43. Mae'r Llywodraeth hefyd yn ymwybodol y gall fod rhywfaint o ddryswch ynghylch pa weithgareddau sy'n gofyn am drwydded deledu a pha rai nad ydynt, yn enwedig pan gynnigir gwasanaethau o'r fath ar yr un plattform. Er enghraifft, nid oes gofyn cael trwydded deledu i fynd at gynnwys ar alw ar ITVHub, All4 neu My5; ond, mae gofyn cael trwydded i wyllo cynnwys byw (neu bron yn fyw) ar y plattformau hyn. Yn yr un modd, mae gofyn cael trwydded deledu bellach i wyllo digwyddiadau chwaraeon byw ar Amazon Prime, er gwaethaf fod trwydded deledu yn parhau i fod yn ddiangen ar gyfer rhaglenni ar alw ar yr un plattform. Mewn achosion lle nad oedd unigolion yn ymwybodol bod angen trwydded deledu arnynt, gellid ystyried bod sancsiwn troseddol yn anghymesur.

²³ [TV Licensing Gender Disparity Report](#), dyddiedig Rhagfyr 2017, tudalen 2. Menywod yw mwyafrif y diffynyddion mewn erlyniadau am osgoi talu'r drwydded.

²⁴ [Adolygiad Perry](#), tudalen 8.

²⁵ Gallwch ddod o hyd i'r [TV Licensing Prosecution Code](#) ar wefan Trwyddedu Teledu.

Newidiadau i nifer a math y bobl y mae'n ofynnol iddynt brynu trwydded deledu

44. Cyhoeddodd y BBC ym mis Mehefin 2019 mai dim ond pobl 75 oed a hŷn sy'n cael Credyd Pensiwn a fydd yn parhau i gael trwydded deledu am ddim o fis Mehefin 2020 ymlaen. Mae'r BBC yn amcangyfrif y gallai fod yn ofynnol i hyd at 3.75 miliwn o bobl dros 75 oed brynu trwydded deledu o ganlyniad i'r penderfyniad hwn.²⁶
45. Mae'r BBC wedi gosod mesurau i helpu'r rhai dros 75 oed gyda'r trawsnewid hwn, ond mae'r Llywodraeth yn dal i bryderu y gallai effaith gorfodi trwyddedau teledu a'r risg o sancsiynau troseddol fod yn anghymesur ar y grŵp hwn yn benodol.
46. Er mwyn helpu i liniaru hyn, mae'r Llywodraeth, o'i rhan hi, yn gweithredu i gefnogi'r rhai a allai, fel arall, wynebu dulliau gorfodi er mwyn cadw'r drwydded briodol. Er mwyn helpu i leihau baich ffi'r drwydded ar y rhai mwyaf agored i niwed, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd yn cyflwyno'r 'Cynllun Talu Syml' yn barhaus fel yr argymhellwyd gan y BBC, ac i hynny fod ar gael i gwsmeriaid cymwys o 1 Ebrill 2020 ymlaen. Bydd hyn yn cynnig opsiynau talu hyblyg bob pythefnos neu fis ar gyfer cwsmeriaid cymwys sy'n agored i niwed heb yr angen i dalu am drwydded y flwyddyn gyntaf ymlaen llaw (a elwir yn 'front-loading'). Bydd y Llywodraeth yn ystyried a ellir ymestyn y cynllun talu hwn ymhellach i gynyddu hyblygrwydd a chyfleustra i'r holl dalwyr ffi'r drwydded.

Yr effaith ar y system gyfiawnder

47. Byddai dad-grimnaleiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu a rhoi cynllun gorfodi sifil yn ei le yn symud achosion o'r system cyfiawnder troseddol i'r system cyfiawnder sifil.
48. Yn 2018, bu 129,446 o erlyniadau am osgoi talu'r drwydded deledu, gan arwain at 121,203 o euogfarnau.²⁷ Ymdrinnir â mwyafrif helaeth yr achosion o osgoi talu'r drwydded deledu o dan weithdrefn effeithlon iawn yn y Llys Ynadon – sef y Weithdrefn Un Ynad - gan gymryd dwy funud yr un ar gyfartaledd i'w cwblhau. Amcangyfrifir bod mwyafrif yr achosion o Weithdrefnau Un Ynad yn cael eu rhestru a'u cwblhau yn y Llys Ynadon ar yr un diwrnod.
49. Er na ragwelir felly arbed adnoddau llysoedd troseddol yn sylweddol o symud o gynllun gorfodi cyfiawnder troseddol i gynllun gorfodi cyfiawnder sifil, fel y nodwyd uchod, mae'r Llywodraeth serch hynny o'r farn bod y system cyfiawnder sifil yn fforwm mwy priodol ar gyfer yr achosion hyn, o ystyried natur y drosedd.

²⁶ ['Age-Related TV Licence Policy Decision Document'](#) y BBC, tudalen 5.

²⁷ ['Criminal Justice System statistics quarterly: December 2018'](#) "Outcomes by offence".

Gwybodaeth am gynlluniau gorfodi amgen

50. Mae'r adran hon o'r ymgynghoriad yn nodi gwybodaeth am gynlluniau gorfodi amgen posibl a'r goblygiadau y byddai angen eu hystyried wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Cynllun gorfodi sifil

51. Y ddau gynllun gorfodi nad ydynt yn droseddol a nodir amlaf i gymryd lle'r drosedd trwyddedu teledu yw: **cosb ariannol sifil** neu **driniaeth fel dyled sifil**. Ystyriwyd y cynlluniau hyn hefyd yn Adolygiad Perry, ochr yn ochr ag opsiwn i setlo y tu allan i'r llys neu system hysbysiadau cosb sefydlog (FPN), nad yw'r ymgynghoriad hwn yn eu cwmpasu, gan fod yr opsiynau hyn yn cynnwys cadw trosedd.
52. Mae **cosb ariannol sifil** yn cynnwys diddymu'r drosedd trwyddedu teledu ac, yn ei lle, greu rhwymedigaeth statudol i gael trwydded deledu a chyflwyno cosb ariannol am fethu â chydymffurfio â'r rhwymedigaeth hon (h.y. am beidio â chael trwydded deledu pan mae un yn ofynnol).
53. Mae enghreifftiau o gosbau ariannol sifil eraill yn cynnwys hysbysiadau tâl cosb (PCN) a gyhoeddir mewn perthynas â thorri rheolau traffig, gan gynnwys dirwyon parcio a thaliadau atal tagfeydd sydd heb eu talu.
54. Ar ôl cael hysbysiad o gosb, mae gan y derbynydd gyfnod o amser i dalu'r swm a hawlir (28 diwrnod fel arfer, gyda gostyngiad o bosibl am daliad cynnar). Yn yr un modd â hysbysiad tâl parcio, byddai gan unigolyn gyfle i herio'r hysbysiad cosb, ac os yw'n aflwyddiannus, hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw (o bosibl drwy ddyfarnwr annibynnol).
55. O dan yr opsiwn hwn, pe bai hysbysiad o gosb yn parhau i fod heb ei dalu, gallai'r awdurdod trwyddedu gymryd camau i orfodi'r tâl. Mae mwyafrif yr hysbysiadau tâl cosb sydd heb eu talu am dorri cyfraith taliadau parcio ac atal tagfeydd yn cael eu trosglwyddo i asiantau gorfodi preifat (beiliaid).²⁸ Fel arall, gallai'r awdurdod trwyddedu wneud cais i'r llys am orfodaeth. Mae'r gweithdrefnau gorfodi ychwanegol sydd ar gael drwy'r llys yn cynnwys defnyddio gorchmynion atafael enillion a gorchmynion talu.
56. Fel arall, ar ôl diddymu'r drosedd trwyddedu teledu, gellid trin ffi'r drwydded teledu fel **dyled sifil** y gellir ei hadennill drwy hawliad arian yn y llysoedd sifil. Er enghraifft, mae hyn yn wir ar hyn o bryd ar gyfer biliau cyfleustodau heb eu talu, lle y gellir mynd â dyledwr i'r Llys Sirol fel y dewis olaf, ac os profir atebolrwydd, gellir gwneud gorchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol talu'r ddyled ac unrhyw gostau o ganlyniad. Dewis amgen arall fyddai galluogi mynd ar drywydd y ddyled drwy'r Llys Ynadon, fel sy'n wir am dreth gyngor heb ei thalu.

²⁸ Mae gwahanol fathau o feiliaid. Mae asiantau gorfodi preifat yn codi ffioedd ar y dyledwr, fel y nodir yn Rheoliadau Cymryd Rheolaeth o Nwyddau (Ffioedd) 2014.

57. O dan yr opsiwn hwn, pe bai'r ddyled yn parhau i fod heb ei thalu, gallai'r awdurdod trwyddedu gymryd camau i orfodi'r tâl drwy'r llysoedd sifil. Byddai'r dulliau gorfodi sydd ar gael yn dibynnu ar werth y ddyled a'r llys a ddefnyddir, ond gallent gynnwys cymryd rheolaeth dros nwyddau gan asiantau gorfodi (beiliaid), defnyddio gorchmynion atafael enillion a gorchmynion talu.²⁹
58. Ar hyn o bryd mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) yn adolygu'r diwydiant asiantau gorfodi (beiliaid) i sicrhau bod gorfodaeth yn parhau i fod yn effeithiol ond nad yw'n achosi i bobl, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed, wynebu camau ymosodol. Yn dilyn galwad am dystiolaeth y llynedd, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn nodi ei phecyn diwygio cyn bo hir. Mae eisoes wedi cyhoeddi ei fod yn bwriadu gwneud camerâu sy'n cael eu gwisgo ar y corff yn orfodol i asiantau gorfodi, er mwyn amddiffyn y rhai sydd mewn dyled a'r asiantau eu hunain. Mae hefyd yn ystyried mesurau pellach i sicrhau bod unigolion yn cael eu trin yn deg, gan gynnwys cryfhau rheoleiddio'r diwydiant a gwella effeithiolrwydd, tryloywder ac annibyniaeth y system gwyno.

Effeithiau cynllun gorfodi sifil

59. Bydd ystod o heriau yn symud o system gorfodi droseddol i system gorfodi sifil. Mae'r pwyntiau allweddol wedi'u nodi isod. Os yw'r Llywodraeth yn bwriadu symud i ddad-grimaleiddio ffi'r drwydded, efallai y bydd angen ymgynghoriad pellach i nodi'n fanwl oblygiadau'r newid hwn.

Cyfraddau osgoi

60. Byddai cyflwyno cynllun gorfodi sifil yn debygol o gael effaith ar lefelau osgoi - sef nifer y bobl nad ydyn nhw'n talu am drwydded deledu pan fydd gofyn am un. Gallai symud o system gorfodi droseddol i system gorfodi sifil greu argraff bod peidio â thalu ffi'r drwydded bellach yn cael ei ystyried yn llai pwysig. O dan y cynllun presennol, mae'r BBC wedi llwyddo i leihau nifer yr achosion o osgoi talu'r drwydded deledu i lefel isel o'i chymharu â gwledydd tebyg yn Ewrop. Cyfradd osgoi talu'r drwydded deledu yn 2018/19 ar gyfer y DU oedd 6.57%; yn sylweddol is na'r cyfraddau osgoi ar gyfer yr Eidal ac Iwerddon yn ôl yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael.³⁰
61. Canfu Adolygiad Perry fod bygythiad trosedd ynddo'i hun yn ddigon i atal rhai rhag osgoi talu'r drwydded deledu. Yn hynny o beth, yn dibynnu ar yr union amgylchiadau, daeth yr Adolygiad i'r casgliad y gallai cyfraddau osgoi talu'r drwydded deledu

²⁹ Cyflogir beiliaid Llys Sirol gan HMCTS. Mae'r credydwr yn talu ffi ymlaen llaw am orfodi y gallant geisio ei hadennill gan y dyledwr. Nid yw beiliaid Llys Sirol yn codi'r ffioedd a nodir yn Rheoliadau Cymryd Rheolaeth o Nwyddau (Ffioedd) 2014. Gellir trosglwyddo Dyfarniadau Llys Sirol gwerth dros £600 i'r Uchel Lys i'w gorfodi. Yna gellir eu trosglwyddo i Swyddog Gorfodi Uchel Lys a gyflogir yn breifat, a fydd yn codi ffioedd fel y nodir yn Rheoliadau Cymryd Rheolaeth o Nwyddau (Ffioedd) 2014.

³⁰ Cyfradd osgoi'r DU yn 18/19 gan yr Ymddiriedolaeth Trwyddedu Teledu, '[Television Licence Fee Trust Statement for 2018-19](#)', tudalen 4. Darparwyd gwybodaeth gan Drwyddedu Teledu i adroddiadau Newyddion y BBC yn 2014 fod y gyfradd osgoi talu yn yr Eidal yn 26%, a bod gan Iwerddon gyfradd osgoi talu o 12%. '[How is TV funded around the world?](#)', aethpwyd ato ar 07/01/20.

gynyddu hyd at 3.9% o dan gynllun gorfodi sifil.³¹ Amcangyfrifodd Adolygiad Perry y gallai cynnydd tebygol yn nifer yr achosion o osgoi talu olygu colled o hyd at £156 miliwn yn refeniw ffi'r drwydded y flwyddyn.³² Byddai hyn yn cael effaith ar faint o arian sydd ar gael i'r BBC ac S4C i ddarparu'r rhaglenni a'r gwasanaethau. Gallai hyn hefyd arwain at ymdeimlad o annhegwch ymhlith y rhai sy'n parhau i dalu ffi eu trwydded.

62. Fodd bynnag, gwnaeth Adolygiad Perry nifer o dybiaethau na fyddai Trwyddedu Teledu yn gallu delio â rhagor o achosion o osgoi talu. O ystyried y mater hwn ymhellach, gellid nodi dulliau i gadw nifer yr achosion o osgoi talu yn isel, hyd yn oed o dan system sifil. Er enghraifft, ystyriodd Adolygiad Perry y gallai lefel cosb ariannol sifil o £500 ostwng colled refeniw ffi'r drwydded i £16 miliwn y flwyddyn.³³

Costau sefydlu a gweinyddu

63. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y bydd costau sefydlu a gweithredol wrth symud o system gorfodi droseddol i system gorfodi sifil; bydd goblygiadau cost ac adnoddau gwahanol i hyn hefyd yn dibynnu ar yr awdurdodaeth gyfreithiol y mae'r achos sifil yn digwydd ynddi.³⁴ Mae gan Ogledd Iwerddon, yr Alban a'r tiriogaethau dibynnol ar y Goron systemau cyfreithiol ar wahân i Gymru a Lloegr.
64. Bydd cyflwyno cynllun gorfodi amgen yn cael effaith uniongyrchol ar y system gyfiawnder, y BBC a Thrwyddedu Teledu, ac ar refeniw'r llywodraeth. Yn ogystal â chostau sefydlu sylweddol tebygol, gallai cost barhaus gorfodi hefyd fod yn uwch, yn enwedig o ystyried bod y weithdrefn bresennol ar gyfer trin erlyniadau am osgoi talu'r drwydded deledu yn hynod effeithlon a bydd y gostyngiad yn y gost i'r llysoedd Ynadon yn fach iawn. Bydd y newidiadau hyn yn cael effaith fawr ar y BBC sy'n amcangyfrif y gallai symud i gynllun gorfodi sifil gostio £45 miliwn yn fwy mewn costau casglu.³⁵
65. Nodwyd pryderon ynghylch costau symud i system gorfodi trwydded teledu nad yw'n droseddol yn Adolygiad Perry. Dadleuwyd y gallai mwy o achosion o osgoi talu trwyddedau teledu a'r costau casglu sifil dilynol leihau'r gwerth am arian yn sylweddol i dalwyr ffioedd trwydded ac i drethdalwyr. Mewn rhai achosion, gall casglu dyledion sifil fod yn ddrud ac yn anodd eu cyflawni, gan ei gwneud yn fwy cost-effeithiol o bosibl i ddileu lefel benodol o osgoi talu.³⁶

Newidiadau i sut y penderfynir ar sancsiynau

66. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cydnabod bod gan y drefn gorfodi bresennol fesurau diogelwch sy'n caniatáu i'r llysoedd liniaru effaith dirwyon ac erlyniad y rhai mwyaf agored i niwed. Ar hyn o bryd mae canllawiau dedfrydu yn caniatáu i lysoedd ystyried amgylchiadau unigol a'r gallu i dalu, ochr yn ochr â difrifoldeb y drosedd gan

³¹ [Adolygiad Perry](#), tudalen 83.

³² [Adolygiad Perry](#), tudalen 83.

³³ [Adolygiad Perry](#), tudalen 95.

³⁴ Cymru a Lloegr; Yr Alban; Gogledd Iwerddon; Jersey; Guernsey; ac Ynys Manaw.

³⁵ [TV Licence Enforcement Review: 'Submission from the BBC to consultation'](#), Ebrill 2015, tudalen 5.

³⁶ [TV Licence Enforcement Review: Ministry of Justice Response'](#) 28 Ebrill 2015.

gynnwys a yw'n drosedd am y tro cyntaf, wrth benderfynu sut i weithredu'r sancsiwn. Efallai na fydd y rhain ar gael o dan drefn gorfodi sifil.

Yr effaith ar unigolion

67. Mae'n debygol hefyd y bydd newidiadau i'r ffordd y mae'r drefn orfodi yn effeithio ar unigolion, y tu hwnt i ddileu'r risg i unigolion o gael euogfarn droseddol a'r stigma cysylltiedig sy'n gallu dod gyda hynny.
68. O dan gynllun gorfodi sifil, efallai y bydd yn ofynnol yn gyffredinol i unigolion dalu mwy wrth wynebu camau gorfodi am osgoi talu'r drwydded deledu nag yn y cynllun gorfodi cyfredol. Yn dibynnu ar y model a ddewisir, gall unigolion fod yn atebol am ffioedd llys am gyhoeddi hawliad llys a gorfodi'r gorchymyn llys, yn ogystal â chostau gorfodi eraill megis ffioedd ar gyfer asiantau gorfodi preifat os cânt eu defnyddio. Ymhellach, dywedodd Adolygiad Perry, y byddai angen i'r BBC osod y gosb ariannol am osgoi talu ar lefel o £500, er mwyn cynnal y cyfraddau osgoi presennol drwy ddefnyddio cosb ariannol sifil; yn sylweddol uwch na'r ddirwy a roddir am y drosedd ar hyn o bryd ar gyfartaledd.³⁷
69. Yn dibynnu ar y math o gynllun gorfodi sifil a ddefnyddir, gellir cofnodi'r ddyled heb ei thalu ar y Gofrestr Dirwyon, Gorchmynion a Dyfarniadau, a allai gael effaith ar allu unigolyn i gael credyd.³⁸ Mae hefyd yn debygol o arwain at ddefnyddio asiantau gorfodi (beili'aid) i orfodi'r ddyled, a allai achosi pryder ychwanegol i unigolion a allai fod yn agored i niwed eisoes.

³⁷ [Adolygiad Perry](#), tudalen 67.

³⁸ Er ei bod yn bosibl gwneud cofnod ar y Gofrestr yn dilyn euogfarn droseddol, ni wneir hyn yn ymarferol ar hyn o bryd.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud ag a ddylid dad-grimineiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu, ac ystyried sut y gallai hyn ddigwydd. Bydd amcanion a ffactorau penderfynu'r Llywodraeth yn cynnwys:

- a yw cynllun gorfodi amgen, nad yw'n droseddol, yn decach ac yn fwy cymesur;
- y gost a'r anhawster i weithredu unrhyw gynllun amgen;
- yr effaith bosibl ar dalwyr ffi'r drwydded, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed a'r rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig; ac
- effaith gyffredinol casglu ffi'r drwydded.

O ystyried yr amcanion a'r ffactorau hyn, ynghyd â'r wybodaeth a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon a gwybodaeth arall sy'n briodol, yn eich barn chi, rydym yn gwahodd atebion i'r cwestiynau canlynol:

1. A ddylid osgoi talu'r drwydded deledu (defnyddio neu osod derbynnydd teledu heb drwydded deledu) fod yn drosedd mwyach? Pam na ddylid osgoi talu'r drwydded deledu fod yn drosedd mwyach, yn eich barn chi?
2. Os, fel arall, rydych chi'n ystyried y dylai barhau'n drosodd i osgoi talu'r drwydded deledu, beth yw'ch rhesymau dros hynny?
3. Os oes gennych farn, pa fodelau cynllun gorfodi amgen sy'n fwyaf priodol yn eich barn chi? Pam?
4. Pa gamau y gallai'r Llywodraeth eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau a allai ddeillio o ddad-grimineiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu?
5. Rhowch unrhyw dystiolaeth sy'n briodol yn eich barn chi wrth ateb y cwestiynau hyn ac unrhyw wybodaeth arall y credwch y dylai'r Llywodraeth ei hystyried, yn enwedig lle mae effaith ar y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig neu'r rhai mwyaf agored i niwed.

Ymateb i'r ymgynghoriad hwn a beth fydd yn digwydd

Sut i ymateb

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cwmpasu'r Deyrnas Unedig. Rydym yn croesawu sylwadau gan yr holl randdeiliaid a allai fod â diddordeb. Bydd yr ymgynghoriad **yn cau am 5pm ar 1 Ebrill 2020**.

Ymatebwch drwy gwblhau arolwg yn y cysylltiad isod:

[Cliciwch yma i gael mynediad i'r arolwg.](#)

Os hoffech **ymateb yn Gymraeg**, anfonwch eich ymateb i

tvlicencedecriminalisation@culture.gov.uk

neu postiwch eich ymateb i:

Consultation on decriminalising TV licence evasion
Media Team
DCMS
4th Floor, 100 Parliament Street
London
SW1A 2BQ

Rydym yn hapus i ddarparu copi o'r ddogfen hon mewn fformatau hygyrch eraill. Os oes angen copi arnoch mewn fformat amgen neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â: tvlicencedecriminalisation@culture.gov.uk.

Datgelu ymatebion a diogelu data

- A. Yr Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a hynny ar y 4ydd Llawr, 100 Parliament Street, Llundain, SW1A 2BQ, yw'r rheolwr data mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych yn eich atebion. Mae eich data personol yn cael eu casglu a'u prosesu gan DCMS, sy'n prosesu eich data personol ar sail caniatâd a roddwyd ymlaen llaw. Byddwn yn cadw'r data a ddarperir gennych am uchafswm o 2 flynedd. Am ragor o wybodaeth, ewch i: <https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-digital-culture-media-sport/about/personal-information-charter>.
- B. Byddwn yn prosesu'r enwau, cyfeiriadau a'r cyfeiriadau e-bost a ddarperir gan ymatebwyr, a gwybodaeth am ba sefydliadau y mae ymatebwyr yn perthyn iddynt, lle darperir hyn. Byddwn hefyd yn prosesu'r wybodaeth a rowch mewn perthynas â'ch barn ar y newidiadau arfaethedig a gynhwysir yn yr ymgynghoriad, a all, yn naturiol, gynnwys data sy'n fasnachol sensitif. Pan ddaw'r ymgynghoriad i ben, byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r pwyntiau allweddol a godwyd ar wefan yr Adran: www.gov.uk/DCMS. Bydd hyn yn cynnwys rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd, ond nid enw personol, cyfeiriad na manylion cyswllt eraill unrhyw unigolyn. Bydd yr holl

ymatebion a data personol yn cael eu prosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

- C. Os ydych am i ryw faint neu'r cyfan o'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu gael ei thrin yn gyfrinachol neu'n fasnachol sensitif, byddai'n ddefnyddiol os gallech nodi'r wybodaeth berthnasol yn glir ac egluro pam eich bod yn ei hystyried yn gyfrinachol neu'n fasnachol sensitif. Sylwch y gall fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i DCMS gyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn unol â chyfundrefnau mynediad at wybodaeth: yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Os cawn unrhyw gais i ddatgelu'r wybodaeth hon, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd llwyr i chi na fydd datgeliad yn cael ei wneud mewn unrhyw achos penodol. Ni fyddwn yn ystyried ymwadiad awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG fel cais perthnasol at y dibenion hyn.
- D. Ar ôl i chi gyflwyno'ch ymateb i'r ymgynghoriad, ni fyddwch yn gallu tynnu'ch atebion yn ôl o'r cam dadansoddi. Fodd bynnag, o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 (a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol), mae gennych hawl i gael mynediad at eich data personol a'u cywiro neu eu dileu (o dan rai amgylchiadau), a gallwch dynnu eich caniatâd i ni brosesu'ch data personol yn ôl ar unrhyw adeg.
- E. Mae gennych hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am ein harferion, i wneud hynny ewch i wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: <https://ico.org.uk/concerns/> neu cysylltwch â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:
- The Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
casework@ico.org.uk Ffôn: 0303 123 1113 Ffôn testun: 01625 545860 Dydd Llun i Ddydd Gwener, 9am i 4:30pm.
- F. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â ni: dcmsdataprotection@culture.gov.uk.

Y camau nesaf

- G. Cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion ac ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad hwn maes o law ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben. Bydd ymateb y Llywodraeth yn ystyried yr holl ymatebion a gyflwynir i'r ymgynghoriad hwn, a bydd yn seiliedig ar ystyriaeth ofalus o'r pwyntiau a wnaed yn ymatebion yr ymgynghoriad, nid nifer yr ymatebion a ddaeth i law. Yn dibynnu ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad hwn, efallai y bydd angen i'r Llywodraeth ymgynghori ymhellach ar fanylion unrhyw newidiadau posibl i'r model gorfodi presennol cyn gwneud penderfyniad terfynol.
- H. Mae rhagor o wybodaeth am yr egwyddorion ymgynghori i'w chael yn <http://www.cabinetoffice.gov.uk/resource-library/consultation-principles-guidance>.
- I. Croesawn sylwadau ar bob agwedd ar y papur ymgynghori.